

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

### Cofnodion Cyfarfod y Fforwm Derbyn a gynhaliwyd yn y Swyddfeydd Dinesig ddydd Llun 19 Hydref 2015

#### **Cynrychiolwyr yr ALI**

Mr R Davies	Rheolwr y Grŵp, Busnes, Strategaeth a Pherfformiad
Y Cyng. Huw David	Aelod Cabinet, Plant a Phobl Ifanc
Mrs M Treharne	Swyddog Cynnal Ysgolion, Cymorth i Ddysgwyr a Phlant
Mrs D Davies	Prif Swyddog, Rheoli Gwybodaeth a Dysgwyr
Mrs F Jones	Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

#### **Cynrychiolwyr Ysgolion**

Mr J Tarran	Pennaeth, Ysgol Gynradd Eglwys Cymru Archddiacon John Lewis
Mrs A Keller	Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath
Mrs S Davies	Pennaeth, Ysgol Iau Llangewydd

#### **Cynrychiolwyr Llywodraethwyr**

Mr W Bond	Ysgol Heronsbridge
-----------	--------------------

#### **Ysgrifenyddes i'r Fforwm**

Ms M Jones

#### **1. Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs A Keller a Mrs S Davies i'w cyfarfod cyntaf

#### **2. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mrs R Dixon, Mr D Jenkins, Mrs G James, Mrs P Richards a Mrs D Burton

#### **3 Ethol Cadeirydd**

Penderfynwyd: penodi Mr R Davies yn Gadeirydd

#### **4 Ethol Is-gadeirydd**

Penderfynwyd: penodi Mr J Tarran yn Is-gadeirydd

#### **5 Cofnodion**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 19 Mawrth 2015 yn gofnod cywir.

#### **6 Cael gafael ar Ddogfennau/Cofnodion y Fforwm Derbyn ac Agendâu/Adroddiad Blynyddol o Berfformiad**

Dywedodd DD wrth aelodau'r fforwm fod Agenda a Chofnodion y Fforwm Derbyn ar gael i'r cyhoedd erbyn hyn ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Adroddiad Blynyddol 14-15 yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg ar hyn o bryd a bydd ar gael ar y wefan cyn gynted ag y bydd gennym gopi o'r cyfieithiad. Dywedodd RD wrth y fforwm fod prosiect corfforaethol yn dechrau'n fuan i adolygu'r cynnwys presennol ar y wefan.

#### **7 Hyrwyddo trefniadau derbyn effeithiol ar gyfer Dysgwyr sy'n Agored i Niwed (Bydd Cylch Gorchwyl y 'Panel Mynediad Teg' yn dilyn)**

Mae Michelle Hatcher, Rheolwr y Grŵp, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiad yn cadeirio'r 'Panel Mynediad Teg' ac mae wrthi'n drafftio'r 'Cylch Gorchwyl' a bydd yr aelodau yn cynnwys Penaethiaid a'u holl gynrychiolwyr.

Cadarnhaodd MT fod y panel wedi trafod 24 o ddisgyblion ym mis Ebrill a bod y nifer hon wedi gostwng i 12 o ddisgyblion yn y cyfarfod diwethaf ym mis Medi.

Awgrymodd RD y dylid gwahodd Owen Shephard i'r cyfarfod nesaf i drafod ymyriad cynnar o ran y Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (VAP) mewn ysgolion cynradd.

Cadarnhaodd y Cyng. David fod angen i'r Cyngor wneud toriadau o 50 miliwn dros y 3 blynedd nesaf a dywedodd na all ysgolion fod yn ddiogel rhag y toriadau hyn. Mynegodd ei bryderon hefyd ynghylch sut y gellid cyflawni'r arbedion a gofynnodd i Aelodau'r Fforwm annog staff, rhieni a disgyblion i lenwi'r arolwg ar-lein ynghylch arbedion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Dywedwyd wrth y Fforwm hefyd bod DM, yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl, wedi cyflwyno adroddiad i'r Cabinet er mwyn cymeradwyo y dylid symud ymlaen ag adolygiad strategol o ddatblygu a rhesymoli'r cwricwlwm ac ystâd ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Cadarnhaodd RD y byddai'n rhannu rhagor o wybodaeth am yr adolygiad pan fyddai partner strategol wedi'i benodi a'r gwaith wedi cychwyn.

MT i ddarparu 'Cofnodion a Chylch Gorchwyl' cyfarfod diwethaf y 'Panel Mynediad Teg'.

Estynnodd y Cyng. David ei longyfarchiadau i aelodau'r 'Panel Mynediad Teg' am eu gwaith caled wrth sicrhau lleoedd i'r disgyblion anodd eu lleoli.

## **8 Adolygu'r llyfryn 'Dechrau Ysgol' 2016-17**

Dywedodd RD fod y 'Polisi Derbyn' wedi'i roi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 1 Hydref yn barod i ddechrau cylch derbyniadau statudol 2016-17. Mae'r ALI ar ganol rhoi'r dalgylchoedd ar y wefan ond dywedodd RD y gallai fod cost ariannol i'r ALI o ran gwirio codau post a'i fod yn edrych ar ddulliau eraill o alluogi'r cyhoedd i chwilio am eu dalgylch ysgol. Mae rhif cyswllt ar y wefan ac yn y llyfryn 'Dechrau Ysgol' os oes angen arweiniad neu wybodaeth ar unrhyw aelod o'r cyhoedd am y broses dderbyn.

Dywedodd RD hefyd fod yn rhaid i'r Cyngor ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon ac felly ni fydd unrhyw gopiâu yn cael eu hargraffu o'r llyfryn 'Dechrau Ysgol' ar gyfer 2017-18 er mwyn lleihau costau. Bydd copi papur o'r llyfryn/polisi derbyn yn cael ei argraffu dim ond pan ddaw cais i law. Cytunodd holl Aelodau'r Fforwm mai dim ond pan ddaw cais i law y dylid argraffu'r llyfryn.

## **9 Ystyried Polisi Derbyn drafft yr ALI ar gyfer 2017-18**

Ystyriodd y Fforwm y Polisi Derbyn drafft ar gyfer 2017-18 ac roedd pawb yn cytuno y dylid tynnu allan neu newid y paragraffau canlynol yn y polisi:

- Diwygio dyddiadau'r Amserlen Derbyniadau ar gyfer 2017-18
- Mae 'Rhesymau Cymdeithasol h.y. gofalywyr ifanc' wedi ei gynnwys yn y meini prawf 'Gordanysgrifio'.
- Pan ellir dangos bod plentyn yn mynychu ysgol y tu allan i'w ddalgylch a hynny oherwydd diffyg lle yn ei ysgol ddalgylch, bydd pob cais gan frodyr a chwiorydd yn cael ei ystyried yn nalgyrch yr ysgol honno. Bydd ceisiadau pellach gan frodyr a chwiorydd yn cael eu hystyried yn nalgyrch yr ysgol.
- Cytunwyd i dynnu allan y datganiad gan y ddarpariaeth Cyn-Feithrin Gymraeg y byddai ffafriaeth i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu darpariaeth feithrin yn parhau i ddarpariaeth feithrin amser llawn, gan fod yr adran gyfreithiol wedi dweud na ellir gweithredu hyn wrth fynd o ddarpariaeth feithrin amser llawn i'r dosbarth Derbyn.
- Mae 'dyddiad geni cronolegol' wedi ei dynnu allan o feini prawf derbyn i ddarpariaeth feithrin oherwydd bod y 'Cod Ymarfer' yn dweud na cheir defnyddio'r maen prawf hwn wrth ddyrannu lleoedd derbyn.

## **10. Ystyried dyddiadau cyffredin ar gyfer y panel derbyn 2017-18**

Dosbarthu'r dyddiadau derbyn a gynigir ar gyfer 2017-18 i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr

#### **11. Diweddariad ar yr ymgynghoriad ar y 'Polisi Teithio gan Ddysgwyr'**

Mae Aelodau'r Cabinet wedi cymeradwyo'r 'Polisi Teithio gan Ddysgwyr' a dywedodd RD wrth y Fforwm y bydd y newidiadau i'r 'Polisi Teithio gan Ddysgwyr' newydd yn dod i rym o fis Medi 2016. Ceir crynodeb o'r newidiadau isod:

- Bydd disgyblion ysgolion cynradd yn cael cludiant am ddim os ydynt yn mynychu eu hysgol ddalgylch ac yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol (1.5 milltir yn flaenorol);
- Bydd disgyblion ysgolion uwchradd (gan gynnwys disgyblion ôl-16) yn cael cludiant am ddim os ydynt yn mynychu eu hysgol ddalgylch ac yn byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol (2 filltir yn flaenorol);
- Bydd disgyblion ôl-16 sy'n byw 3 milltir neu fwy o Goleg Pen-y-bont hefyd yn cael cludiant am ddim ar ffurf tocyn gwasanaeth cludiant cyhoeddus (2 filltir yn flaenorol).

Dywedodd RD hefyd pan ddaw'r polisi i rym o fis Medi 2016 y bydd disgyblion sydd islaw'r trothwy newydd am gludiant am ddim sydd eisoes yn cael cludiant am ddim cyn mis Medi 2016 yn parhau i gael cludiant am ddim nes iddynt drosglwyddo i'r cam addysg nesaf neu adael yr ysgol. Bydd disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol gynradd neu'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2016, sydd islaw'r trothwy newydd am gludiant am ddim ond sydd â brawd neu chwaer eisoes yn yr ysgol honno ac yn cael cludiant am ddim, hefyd yn cael cludiant am ddim nes iddynt drosglwyddo/adael yr ysgol honno.

#### **12 Diweddariad ar y 'Gronfa Ddata Derbyniadau' presennol**

Esboniodd RD wrth aelodau'r Fforwm na allwn, yn sgil toriadau staff yn ein hadran TGCh, ystyried cronfa ddata fewnol bellach. Ar hyn o bryd mae'r ALI yn cyfathrebu â RhCT ynghylch y posibilrwydd o fuddsoddi mewn Capita 1. Gofynnodd JT a fyddai fersiwn bapur yn parhau i fod ar gael hefyd oherwydd na fyddai gan rai o'r rhieni gyfrifiadur. Dywedodd RD y byddai fersiwn bapur ar gael i rieni o hyd.

Cyfeiriodd y Cyng. David at y posibilrwydd o symud ffoaduriaid i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac effaith bosibl hyn ar ysgolion 'Ffydd' sydd ar hyn o bryd â niferoedd uchel o ddisgyblion. MT i adrodd yn ôl i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.

#### **13. Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd nesaf y 'Fforwm Derbyn'**

Pennu dyddiadau cyfarfodydd gydag Aelodau'r Fforwm

#### **14. Unrhyw fusnes arall**

MJ i ddsbarthu dyddiad cyfarfod nesaf y fforwm derbyn i ALLau cyfagos.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.30am**